# Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu (HOPE)

## Disgrifiad Rôl Eiriolwr Gwirfoddol Annibynnol

### Diffiniad o Eiriolaeth:

Mae eiriolaeth yn cymryd camau i helpu pobl i ddweud beth maen nhw ei eisiau, sicrhau eu hawliau, cynrychioli eu buddiannau a chael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

### Crynodeb o rôl Eiriolwr Gwirfoddol Annibynnol

Byddwch yn cefnogi pobl yn eich cymuned leol i glywed eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau ac i gyflawni eu huchelgeisiau a'u nodau personol. Yn y rôl hon byddwch yn cefnogi pobl gyda'u problemau neu bryderon ac yn y pen draw yn eu grymuso i allu datrys materion tebyg eu hunain yn y dyfodol. Gyda'ch gilydd byddwch yn datblygu cynllun gweithredu personol ac yn gweithio i gyflawni eu huchelgeisiau.

### Beth mae Eiriolwr Gwirfoddol Annibynnol yn ei wneud?

Fel eiriolwr gwirfoddolwr annibynnolbyddwch yn helpu pobl i:

- Ymgysylltu ag eraill fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi
- Bod yn rhan o'u bywyd fel nad ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu gadael allan, eu hynysu neu eu dadrymuso
- Teimlo eu bod yn cael eu cynnwys
- Cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, pan fydd ei hangen arnynt, yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt
- Deall eu hopsiynau a'u dewisiadau
- Dewis yr hyn maen nhw'n teimlo sydd orau iddyn nhw o ystyried yr holl wybodaeth berthnasol
- Deall pa wasanaethau a allai fod ar gael iddynt a beth y gallant ei ddisgwyl gan wasanaethau
- Bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw
- Teimlo mewn rheolaeth ac yn gyfartal i'r rheiny o'u cwmpas
- Sicrhau bod eu hawliau a hawliadau yn cael eu deall a'u cefnogi
- Deall beth sy'n digwydd mewn cyfarfodydd neu apwyntiadau
- Paratoi at gyfarfodydd
- Lleisio beth sy'n bwysig iddynt mewn cyfarfodydd neu eistedd wrth eu hochr i'w cefnogi
- Edrych ar ffyrdd i wneud iddynt deimlo'n ddiogel os ydynt wedi'u niweidio neu mewn perygl o gael eu niweidio

### Sgiliau allweddol neu wybodaeth Eiriolwr Gwirfoddol Annibynnol

- Gwrando ar bobl a chlywed eu dymuniadau a'u huchelgeisiau
- Dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â phobl hŷn

- Dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â gofalwyr
- Gallu uniaethu â phobl
- Y gallu i rymuso pobl
- Amynedd a dealltwriaeth o sefyllfaoedd pobl hŷn
- Y gallu i gynllunio'r ffordd ymlaen gyda rhywun
- Y gallu i gyfathrebu'n glir gydag eraill
- Y gallu i helpu pobl brosesu gwybodaeth
- Y gallu i esbonio pethau mewn ffordd glir a chryno
- Profiadau byw i dynnu arnynt
- Natur gadarnhaol
- Sgiliau cadw amser da
- Y gallu i gadw gwybodaeth gyfrinachol (fel y bo'n briodol)

**Tasgau allweddol ar gyfer Eiriolwr Gwirfoddol Annibynnol**

- Helpu rhywun i ddeall rôl eiriolaeth ar ddechrau'r cyfarfod cyntaf gyda nhw, gan gynnwys yr hyn y gallwch chi ac na allwch chi ei wneud
- Cadarnhau ffyrdd priodol o weithio i gwrdd ag anghenion pob person
- Datblygu cynllun gweithredu gyda'r unigolyn sydd eisiau cefnogaeth eiriolaeth, gan weithio gyda'ch gilydd tuag at gyflawni'r canlyniadau a ddymunir
- Galluogi'r person i siapio'r cymorth eiriolaeth maen nhw'n dymuno ei gael
- Archwilio ac ymchwilio i opsiynau sydd ar gael i'r unigolyn
- Mynd gyda phobl i gyfarfodydd os ydynt angen cefnogaeth
- Gwneud galwadau ffôn, anfon negeseuon e-bost, helpu i ysgrifennu llythyrau neu lenwi ffurflenni
- Darparu'r gefnogaeth y cytunwyd arni yn y cynllun ac adolygu'n rheolaidd pa gynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi
- Dod â'r gefnogaeth i ben yn briodol ar ôl i'r holl faterion gael eu datrys a gyda chytundeb y person hŷn neu'r gofalwr
- Mynd i gyfarfodydd gyda'ch goruchwyliwr yn Age Cymru fel y cytunwyd a diweddaru yn rheolaidd ar statws y gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan gynnwys unrhyw bryderon
- Cadw cofnodion o'ch cyfarfodydd a chydymffurfio â rheoliadau diogelu data, gan sicrhau bod ein gwybodaeth am gleientiaid yn cael ei chadw'n gyfrinachol.
- Cadw at holl werthoedd, polisïau a gweithdrefnau Age Cymru
- Ymateb i anghenion a cheisiadau eich goruchwyliwr yn Age Cymru

**Gwybodaeth Ychwanegol**

- Rhaid i wirfoddolwyr fod yn 18 oed neu'n hŷn
- Bydd pob eiriolwr gwirfoddol angen gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
- Gellir darparu cefnogaeth Eiriolaeth naill ai'n rhithwir, drwy alwadau ffôn neu fideo, neu wyneb yn wyneb, mewn mannau cymunedol neu gartref y cleient
- Byddwn yn darparu pecyn hyfforddiant ymsefydlu HOPE i roi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar wirfoddolwyr i eirioli dros gleientiaid HOPE. Bydd hwn yn cael ei ddarparu'n rhithwir dros Zoom

- Er mwyn helpu i gadw eich bywyd personol a'ch bywyd fel gwirfoddolwr ar wahân, byddwn yn rhoi cyfeiriad e-bost Age Cymru i chi a mynediad i'n system ffôn digidol (Byphone) er mwyn cyfathrebu â'r cleient a / neu unrhyw wasanaethau trydydd parti.
- Rydym yn cynnig Credydau Amser Tempo yn gyfnewid am oriau gwirfoddoli

Dyddiad 22/04/2026